# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Creigiau**

**Neuadd Scout**
**Castle Close**
**Creigiau**
**Caerdydd**
**CF15 9NJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 24 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.ukRhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Pwyllgor Cylch Meithrin Creigiau wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 18 o blant rhwng 2 a 4 oed yng Nghylch Meithrin Creigiau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gwasanaeth cofleidiol i blant sy'n mynd i Ysgol Gynradd Creigiau. Mae'r gwasanaeth yn cynnal sesiynau yn ystod y bore rhwng 09:10am a 11:40am, gofal cofleidiol rhwng 11:40am a 12:45pm, a sesiynau yn ystod y prynhawn rhwng 12:40pm a 03:10pm yn yr wythnos yn ystod y tymor. Mae'r Pwyllgor wedi penodi Unigolyn Cyfrifol i weithredu ar ei ran, sef y Person â Chyfrifoldeb sy'n rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth Cymraeg yw'r gwasanaeth hwn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael profiadau cadarnhaol a chyfleoedd da mewn perthynas â'u chwarae a dysgu. Maent yn cymryd rhan ragweithiol yn eu chwarae ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u cydweithwyr a'u gofalwyr. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant ac yn darparu gofal magwrus. Mae'r safle yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr addurniadol da. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol ar y cyfan ond gwnaed argymhellion mewn perthynas â dogfennaeth ac mae angen defnyddio dull gweithredu mwy cadarn o ran gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau bod yr holl ofynion rheoliadol yn cael eu bodloni.

**2. Gwelliannau**

Rhoddwyd yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad diwethaf ar waith, gan gynnwys llunio adroddiad ansawdd gofal blynyddol a chofnodi sesiynau goruchwylio staff.

Ers yr arolygiad diwethaf, gosodwyd ffens newydd ac mae'r gwasanaeth wedi prynu bygi i gludo plant i'r ysgol ac oddi yno.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rhoddwyd gwybod i'r darparwr nad oedd hi'n cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas ag addasrwydd gweithwyr o ran gwiriadau cyn cyflogi. Fodd bynnag, gwnaeth weithredu ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, felly ni roddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Gwnaethom argymhellion arfer da a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae dewis addas o gyfleoedd chwarae a dysgu ar gael i'r plant. Mae'r plant wedi setlo, yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda'i gofalwyr ac yn dysgu sgiliau newydd yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant siarad fel y mynnont a rhoi gwybod i'r staff am eu hanghenion. Maent yn hyderus i siarad â'r staff ac maent yn gwrando ar ddymuniadau a cheisiadau'r plant. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ddigon hyderus i ofyn am gymorth gan y staff ac i ddweud beth roeddent yn ei hoffi a beth nad oeddent yn ei hoffi, er enghraifft, eu dewis o fwyd yn ystod amser byrbryd a ble roeddent am eistedd.

Mae gan y plant lais yn y gwasanaeth, caiff eu cyfathrebu ei werthfawrogi a gallant wneud dewisiadau yn annibynnol.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo'n dda ac yn gyfarwydd ag arferion y gwasanaeth. Maent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w gofalwyr. Clywsom y plant yn defnyddio enwau'r staff, ac fe'u gwelsom yn mynd atynt i gael tawelwch meddwl a sylw. Gwnaethom drafod y posibilrwydd o arddangos lluniau'r plant gyda'r Unigolyn Cyfrifol er mwyn rhoi mwy o ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r plant yn hapus ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau eu hunain a theimladau'r rheini sydd o'u cwmpas. Gwelsom fod rhai o'r plant yn hoffi chwarae ar eu pen eu hunain a bod y rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio ac yn chwarae gyda phlant eraill. Gwelsom fod y plant yn gallu aros a chymryd eu tro yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu strategaethau ymdopi i ddelio â'r adegau pan fydd yn rhaid iddynt aros neu wneud rhywbeth nad ydynt am ei wneud. Gwelsom enghreifftiau o hoffter digymell gan rai plant i'w ffrindiau ac i staff.

Mae'r plant yn cael cymorth da i ddatblygu gwydnwch emosiynol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ond gallant ymlacio a mwynhau adegau tawel hefyd. Cânt y rhyddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Gallant ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu cam datblygu. Cânt gyfnodau estynedig o chwarae di-dor sy'n cael eu dechrau gan blant, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i oedolion chwarae ochr yn ochr â nhw. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam

datblygu ar gael i'r plant. Gwelsom y gallai'r plant ymuno â gweithgaredd wedi'i arwain gan oedolyn gyda'r rhyddid i adael i ymuno â gweithgaredd arall ar unrhyw adeg. Roedd hyn yn arwain at awyrgylch prysur, gyda'r plant wedi ymgolli mewn chwarae a dysgu o'u dewis nhw.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn y gwasanaeth hwn sy'n cydnabod pwysigrwydd profiadau chwarae plant ar gyfer eu datblygiad cyffredinol.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau hunangymorth yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Aeth y rhan fwyaf o'r plant hŷn i'r toiled yn annibynnol a chafodd y plant eu hannog i olchi a sychu eu dwylo. Gwelsom rai plant yn hongian eu cotiau eu hunain ar begiau wrth ddychwelyd i'r adeilad ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Roedd y plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amseroedd byrbryd drwy weini'r bwyd eu hunain, ond roedd llawer mwy o gyfleoedd y gallai'r plant fod wedi bod yn annibynnol. Roedd y plant yn gallu cymryd risgiau priodol wrth ddefnyddio cyfarpar chwarae yn yr awyr agored ac yn dangos sgiliau annibynnol drwy ddewis adnoddau.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau pwysig yn sgil y cyfleoedd a ddarperir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael budd o dîm o staff profiadol a chyson sy'n cydweithio'n dda i gefnogi a hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Mae'r gofal yn fagwrus a chynnes a chaiff y rhyngweithiadau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol ac maent yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn rhagweithiol o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig i gefnogi eu hymarfer. Mae'r polisi diogelu yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am y Ddyletswydd Atal o ran radicaleiddio. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi, ond nid oedd pob cofnod a welsom wedi'i lofnodi gan y rhieni. Gwnaethom hefyd drafod yr angen i werthuso damweiniau a digwyddiadau i nodi patrymau gyda'r Person â Chyfrifoldeb. Mae polisi meddyginiaeth clir sy'n nodi bod angen i rieni lofnodi cyn ac ar ôl rhoi unrhyw feddyginiaeth.

Rhoddir byrbrydau iach â llaeth neu ddŵr i'w yfed i'r plant, ond nid oedd dŵr yfed ar gael i'r plant helpu eu hunain iddo drwy gydol y sesiwn.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac maent yn gweithredu'r polisïau a gweithdrefnau gofynnol i sicrhau y caiff iechyd a lles y plant eu hyrwyddo.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac mae eu dull yn addas ar gyfer oedran y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r polisïau rheoli ymddygiad a gwrth-fwlio yn pwysleisio perswâd cadarnhaol a chymorth i'r plant. Drwy gydol ein hymweliadau, gwnaeth y staff atgoffa'r plant o bwysigrwydd cwrteisi ac roeddent yn trin ei gilydd a'r plant dan eu gofal â pharch.

Mae'r tîm o staff yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant mewn ffordd gadarnhaol ac yn dilyn polisi'r gwasanaeth.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn gynnes, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Maent yn galluogi'r plant i chwarae'n annibynnol ac yn eu cefnogi'n effeithiol er mwyn sicrhau y gall y plant ddilyn eu diddordebau a'u dewisiadau o ran chwarae. Roedd y staff yn frwdfrydig ac yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac yn cefnogi eu cyfraniad yn ystod amser cylch.  Gwelsom dystiolaeth o gynllunio ac asesu

datblygiad y plant i gynllunio ar gyfer eu camau nesaf, er nad oedd dyddiadau ar rai o'r cofnodion datblygu i ddangos pryd y cawsant eu cwblhau.

Mae'r tîm o staff yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant yn dda.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu darpariaeth 'rhoi popeth i gadw' o neuadd scowtiaid. Yn ystod yr oriau gweithredu caiff y gwasanaeth ddefnydd llwyr o'r adeilad. Mae ardal gaeedig yn yr awyr agored ar gael i'r plant i chwarae ynddi. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i fonitro iechyd a diogelwch yr amgylchedd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw ardaloedd yn ddiogel. Roeddent yn tacluso'r ardaloedd a oedd yn anhrefnus fel mater o drefn ac yn goruchwylio'r plant yn agos. Mae angen i bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth fewngofnodi, a chaiff amseroedd cyrraedd a gadael y plant eu cofnodi. Caiff y gwiriadau diogelwch trydanol eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd copi o'r dystysgrif hon yn cael ei chadw yn y gwasanaeth a chafodd ei hanfon at AGC yn dilyn yr adolygiad. Caiff ymarfer tân ei gynnal bob tymor er mwyn helpu i nodi peryglon ac i ymgyfarwyddo'r plant â'r ymarfer. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Iechyd yr Amgylchedd fel gwasanaeth bwyd a gwnaeth cyflawni sgôr o bump yn ystod yr arolygiad diwethaf. Roedd ardaloedd yn y gwasanaeth yn lân ac mewn cyflwr da, ond ni chafodd yr Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ei gwblhau.

Mae'r staff a'r arweinwyr yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch y cytunwyd arnynt er mwyn monitro diogelwch yr amgylchedd

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant. Mae cynllun yr ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau yn hawdd cael gafael arnynt yn gyffredinol gan olygu y gall y plant ddewis teganau heb gymorth gan oedolyn. Mae ardaloedd dynodedig ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl a chwarae blêr gan alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau heb amharu ar ei gilydd. Mae ardaloedd darllen ar gael i'r plant sydd am eistedd ac edrych ar lyfr. Mae toiledau a sinciau wedi'u lleoli wrth ymyl y brif ystafell, a gwelsom y plant hŷn yn eu defnyddio'n annibynnol. Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos ar gyfer y rhieni ar hysbysfwrdd gan gynnwys y dystysgrif yswiriant a chofrestru.

Mae'r darparwyr yn darparu ardaloedd chwarae croesawgar i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar addas ar gael i'r plant. Mae dodrefn priodol er mwyn i'r plant eistedd yn gyfforddus i gwblhau gweithgareddau bwrdd a bwyta eu prydau a'u byrbrydau. Mae amrywiaeth o adnoddau i hyrwyddo dysgu a datblygiad y

plant, dan do ac yn yr awyr agored. Dan do gwelsom fod gweithgareddau crefft, setiau trenau, chwarae rôl ac offerynnau cerddorol ar gael i'r plant. Roedd sgwteri, gemau pêl a blociau jig-so yn yr awyr agored. Mae gan y gwasanaeth rai adnoddau amlddiwylliannol yn ogystal â'r rheini sy'n adlewyrchu cymdeithas ehangach ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau sydd o ansawdd da a'r gael i'r plant.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Yn gyffredinol, caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli'n effeithiol ond gwnaethom rai argymhellion ar y thema hon. Caiff y staff gefnogaeth dda i ddarparu safon dda o ofal a chânt eu cymell i wneud eu swydd yn dda. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned leol wedi'u sefydlu'n dda. Gwnaeth yr Unigolyn Cyfrifol wrando ar ein hadborth yn ystod yr arolygiad ac roedd hi'n awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae datganiad o ddiben sy'n disgrifio'r gwasanaeth ac mae'n nodi eu hamcanion a'r hyn y gall y rhieni ei ddisgwyl wrth gofrestru eu plant yn glir.  Nodwyd bod y ffeil polisïau yn drefnus ac yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r polisïau a gaiff eu hadolygu. Cwblhawyd y sampl o gontractau'r plant a welsom yn dda, ac roedd y rhieni wedi llofnodi eu caniatâd ar gyfer eli haul, lluniau a theithiau. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system ar gyfer gwerthuso ac adolygu'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal diweddaraf a datganiad hunanasesu gwasanaeth (SASS) wedi'u cwblhau a'u hanfon ymlaen at AGC. Mae polisi cwynion ar waith os bydd y rhieni yn awyddus i godi mater.

Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i werthuso a chynllunio gwelliannau i sicrhau bod y plant yn cael profiadau mewn gwasanaeth sy'n gwella.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Caiff y staff eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u dyletswyddau. Roedd ystod dda o gofnodion dyddiol yn cael eu cadw megis cofrestri presenoldeb a rotas staff er mwyn sicrhau bod cymarebau staff i blant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff ac roedd rhywfaint o wybodaeth ofynnol ar goll. Gwnaeth yr Unigolyn Cyfrifol weithredu ar unwaith i gywiro hyn felly nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd i drafod cynlluniau ar gyfer unrhyw faterion sy'n codi. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu, ond gwnaethom drafod yr angen i ddatblygu systemau presennol â'r Unigolyn Cyfrifol.

Yn gyffredinol, mae trefniadau rheoli'r staff a'r adnoddau yn effeithiol, fodd bynnag dylid datblygu'r systemau goruchwylio staff.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos â rheini a'r gymuned i hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i'r plant. Mae'r gwasanaeth yn aelod o sefydliad ymbarél sy'n darparu cymorth os bydd angen. Dywedodd y staff wrthym fod rhieni yn cael eu hysbysu am y gwasanaeth drwy gylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost. Caiff sesiynau *'Stay and play'* eu trefnu ar gyfer y rhieni ar ddechrau'r flwyddyn i'w helpu i ddod yn gyfarwydd â'r gwasanaeth. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, gan ddisgrifio'r staff yn '*caring and know the children well'*. Caiff digwyddiadau blynyddol eu cynnal gan gynnwys diwrnod chwaraeon a sioe Nadolig. Dywedodd y Person â Chyfrifoldeb wrthym eu bod wedi meithrin cysylltiadau da â'r ysgol gynradd leol er mwyn sicrhau cyfnod pontio mor ddidrafferth â phosibl.

Mae'r partneriaethau yn effeithiol, sy'n gwella'r buddiannau i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r Unigolyn Cyfrifol;

- Gwneud yn siŵr bod y rhieni'n llofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau;
- gwerthuso'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau er mwyn nodi unrhyw batrymau;
- datblygu systemau goruchwylio ac arfarnu staff;
- cynnal archwiliad Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- arddangos lluniau'r plant;
- dyddio cofnodion datblygu plant;
- sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn ac y gallant helpu eu hunain iddo, a
- datblygu cyfleoedd ar gyfer bod yn annibynnol yn ystod amseroedd byrbryd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad arferol llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ddwywaith, gyda'r cyntaf yn ddirybudd;

- Gwnaethom arsylwi arferion gofal;
- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle;
- gwnaethom siarad â'r staff;
- gwnaethom ystyried y wybodaeth a oedd ar gael i AGC, gan gynnwys datganiad hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS);
- gwnaethom siarad â dau riant, ac
- edrychom ar amrywiaeth o ddogfennaeth. Gwnaethom ganolbwyntio ar y Datganiad o Ddiben, Polisi Diogelu, polisi rheoli Ymddygiad a Chontractau'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Sarah Hewett** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sarah Hewett** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **18** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 ½ i 4 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng** 09:10am a 03:10pm yn yr wythnos yn ystod y tymor |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **24 Mawrth 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **15 Tachwedd 2018 a 16 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |